Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Barddoniaeth Blwyddyn 2 – 4

Dolffin: Mwynheais y gerdd hon sy'n llawn o gyffro. Mae derbyn gwahoddiad i barti bron mor gyffrous â'r parti ei hun ac mae hynny'n gael ei gyfleu yn dda yn y gerdd. Pe na bai am un ymgeisydd arall byddai'r gerdd wedi ennill y wobr gyntaf.

Umbreon: Hoffais fel y mae'r gerdd hon yn crisialu holl rwystredigaethau cymaint o blant dros y ddwy flynedd diwethaf, hbe fod wedi gallu mynychu partïon, cymdeithasu gyda ffrindiau, gwneud yr hyn y mae plant i fod i'w wneud. Llongyfarchiadau ar gipio'r wobr gyntaf.

Macsen: Cerdd acrostig hwyliog. Diolch amdani. Un nodyn, cofier taw 'hael' yw'r gair nid 'haer'.

Barddoniaeth Bl.7 – 9

Mae'r beirdd yn mynf a ni i sawl cyfeiriad a mwynheais ddarllen y gwaith yn fawr. Os oes ceisiadau unigoll am feirniadaeth i gerdd benodol rwy'n hapus i'w ddarparu.

Barddoniaeth Blwyddyn 10-13

Gwyniad: Er gwaetha'r siom o weld mai dim ond cystadleuydd a fentrodd gydag ymgais yn y gystadleuaeth, pleser mawr oedd gweld fod yma englyn sydd nid yn unig mewn cynghanedd gyflawn a chywir, ond sydd hefyd yn llwyddoi i farddoni profiad. Dalier ati i ddatblygu'r ddawn gynganeddol hon.

Englyn

Ar Bapur: gogoniant yr englyn hwn yw'r llinell glo heb os, ac anodd anghytuno ag e! Efallai mai'r llinell wannaf yw'r drydedd, mae'r 'eto llais' yn chwithig ac i weld yno er mwyn y gynghanedd yn hytrach na'r gystrawen neu'r farddoniaeth.

Barbwr: englyn digri a da iawn am lwyddo i gyflawni hynny, rhywbeth anodd i'w wneud. Mae angen edrych eto ar y gynghanedd lusg yn y llinell agoriadol: Fy nghyngor i/i Boris – mae'r i-dot yn denu sylw'r glust ac felly yn ei gwneud hi'n anodd clywed y gynghanedd lusg.

Bourbon ta Custard Cream: englyn crwn sy'n cynnal delwedd forwrol o'r dechrau hyd y diwedd i ddangos diolchgarwch a gwerthfawrogiad o'r fam-yng-nghyfraith. Edrychwn i eto a llinell glo- ydy mae traeth/tro yn drawiad y gall y glust ei gwerthfawrogi, ond gellir dadlau fod yr ydyw hi hefyd yn hawlio gorffwysfa a bod felly angen ateb /'t r th d h ACEN' yn yr ail linell. Gellir osgoi hyn drwy sicrhau fod gair trisill yng nghanol y llinell, mae'n fodd o begynnu'r orffwysfa a'i chadw draw rhag canol y llinell

Caerlego: Diolch

Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Cameliffant: Englyn cryf ei iaith a'i gynghanedd!

Cardi ysbrydol: englyn sy'n ymdrechu'n uwch. Gellir dadlau efallai fod gosod 'cymun' ac 'alcemeg' yn drysu delweddau ond mae'r cyfeiriad at aur yn llinell tri a thestun yr englyn yn gwneud yr englyn yn un teilwng o'r drydedd wobr.

Chwddwydr: englyn gwleidyddol sy'n cynnwys cynghanedd gysylltben ddeheuig yn y llinell gyntaf. Da

Cydymdeithiwr: englyn sy'n taro tant ac a fu'n agos at y brig. Mae stori Norman Thomas fel Cymro olaf pentre hardd Cwm yr Eglwys yn un mor drist ac yn llawer rhy gyffredin ym mhrofiad sawl pentref arall sy'n mynd i'r un cyfeiriad. Gwreiddiol yw'r syniad o hiraeth fel dihiryn.

Cyfaill: Englyn glân ei gynghandd a ddiffuant ei neges i Eleanor Llewelyn

Darllenydd: Englyn diffuant ei fawl i Dr John Aaron. Byddai'n codi'n uwch pe bai mwy o ymdrech i ddelweddu yma.

Deilen: englyn sy'n anelu'n uwch ac sy'n llwyddo i gyfleu llwyddiant Annes Glyn fel un o feirdd craffaf y trydarfyd. Bu hwn yn cnocio ar ddrws yr enillwyr

Donkey Xote: englyn a'i resymeg sydd efallai yn llawer mwy clyfar na'r beirniad hwn!

Éamon Dilyferydd: mae bai trwm ac ysgafn ym mhrifodl yr englyn yn anffodus – '-mogg/llog'.

Estron Ystrae: Englyn crwn sy'n cyfleu'n effeithiol greulondeb Priti Patel a nifer o'i pholisïau

Estyn llaw: Englyn sy'n trafod yn effeithiol effeithiau creulon dementia ar aelodau'r teulu sy'n gweld y dirywiad.

Fflur: englyn crafog i Aneurig (Aneirin sy'n beirniadu'r englyn!)

Giruena Negisco Faldana: Englyn crafog arall i Aneurig

Gobitho am y Gore: englyn hyfryd, crwn, sy'n cynnal deelwedd yn hynod effeithiol o'r dechrau i'r diwedd ac sy'n llachar ei obaith erbyn y llinell glo.

Gwyliwr y Glannau: Englyn arall yn trafod sefyllfa drist Norman Thomas fel cymro olaf Cwm yr Eglwys. Mae'r ddau englyn i Norman Thomas yn y gystadleuaeth yn gydradd o ran eu safon am wahanol resymau. Mae hwn yn llifo'n well na'r llall ond gwreiddioldeb y drydedd linell yn codi'r englyn arall i dir cyfuwch

Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Jarman: englyn gorau'r gystadleuaeth, gyda llinell glo gofiadwy, mae hyn er gwaetha'r gwall gramadegol sydd angen ei drwsio ar ddiwedd y paladr – 'gŵyr dithau' – 'gwyddost dithau' sy'n ramadegol gywir.

Jeremy Paxman: diolch!

Mab y Blaenau: Englyn diffuant ond o bosib un sydd hefyd yn drysu ei ddelweddau – marchog / gardd a.y.y.b

Mewn Cae: englyn annwyl iawn i'r mab, Penri. Cofier taw 'ein hanrheg' sy'n gywir

Môr Glas: mae 'tlodi' yn ffurf mwy arferol na 'thlodedd' a natur anarferol 'tlodedd' yn tynnu sylw diangen. Hefyd, ydy 'dim yn gyfryw' yno er mwyn cwblhau'r gynghanedd yn hytrach nag ychwanegu dyfnder ystyr?

Nguyen: Cytuno'n llwyr!

Obama: Englyn miniog ei ddychan

Penwan: englyn cryf ei neges a chryf ei gynganeddion cytseiniol

Pobydd: Englyn teilwng o ddoniau ffotograffig Richard Jones. Efallai y dylsai llinell 3 fod yn llinell glo? Mae llinell 4 yn sicr yn wannach yn dilyn llinell 3. Byddwn i'n gosod llinell 3 fel llinell glo ac ail wampio'r llinell 'Rich cywrain a'n harwain nôl'.

Popadom: englyn y byddai'r Bombay Blue a Kallum yn falch iawn o'i osod ar furiau'r bwyty!

Sylwedydd: englyn da i Martin Huws, ond tybiaf mai 'ffynnon godi' yw 'pistyll', onid e? Nid wy'n gyfarwydd a'r term 'ffynnon godi'

Twm Taibach: englyn sy'n cyfleu ymosodiadau clyfar parhaus Steve Bray ar wallgofrwydd brexit

Vincent: Englyn sy'n glyfar iawn yn trafod y gwirionedd am waith nifer helaeth o artistiaid sef eu bod nhw'n aml yn cael y clod mwyaf wedi iddyn nhw ein gadale ni.

Waldo: Englyn dirdynnol sy'n efrydu daliadau a gweledigaeth Waldo

Wep hir: Stori fer o englyn! Da

Ysbryd y Sul: ymgais deg i ganu mawl i Dewi Llwyd. Mae angen edrych eto ar gynghanedd y drydedd linell – 'cawr /dysg ar..' c ac r ac yn g ac r y mae'r glust yn ei chlywed.

Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Yr Emyn

Daugleddau: Emyn traddodiadol wedi ei fydryddu'n dynn a'i fynegi'n ddiffuant.

Pantygwair: Hoffais yr ymdrech i ganfod mydryddiaeth sy'n amrywio ar batrymau arferol emynau. Tybiaf mai 'Oll yn eiddo i ti' ddylai fod yn y llinell glo ond yna mae hynny sill yn ormod.

Brynwyre: Hoffais y ffaith fod yr emyn hwn yn mynd â ni i fyd Natur i ddangos olion Duw drosto i gyd. Mae hyn yn chwa o awyr iach yn ffurf yr emyn.

Iolo: Emyn hynod amserol a llwyddiannus yn hynny o beth. Amen a diolch amdano. Llawn haedda'r ail wobr.

Adyn: Mae emynau geiriog ac emynau prin eu geiriau o ran eu gwead yn bodoli ac felly gall rhywun fynd ag emyn i sawl cyfeiriad o ran ei adeiladwaith a'i wead, ond i'm chwaeth hi byddai geirio'r emyn mewn llinellau byrrach yn plesio mwy. Ond chwaeth un person yw hynny.

Alltlwyd: Emyn cymharol syml ond effeithiol ar gyfer y Nadolig.

Awst: Hoffais hon yn fawr a dim ond fy chwaeth a fwynheuodd emynau eraill a olygai na chyrhaeddodd y brig, ond mae gwreiddioldeb a barddoniaeth yn pefrio drwyddi o'r dechrau i'r diwedd. Da iawn.

Deridando: Mwynheais elfen ddiolchgar a chyfoes yr emyn hwn ac mae'n dangos fod modd gwneud y Neges yn un berthnasol i fywydau pobol heddiw. Haedda'r drydedd wobr.

Enfys: Fel gyda'r rhai eraill ddaeth i'r brig, yr emynau sy'n cyffwrdd â materion ein dyddiau digynsail ac yn cyffwrdd â chalon y foment felly, fel hon a wnaeth yr argraff fwyaf arnaf fi. Mae cyffyrddiad brwsh yr artist hwn yn un ysgafn, cynnil a bwriadol gyda'r ail-adrodd yn golygu fod dewis o eiriau gwahanolcmewn gwahanol lefyd yn talu am eu lle. Llongyfarchiadau ar gael y wobr gyntaf.

Gea: Carol ddinesig i'r Aes ac un a fydd at ddant bobl ein prifddinas. Er bod cysondeb i'r fydryddiaeth, nid oedd fy nghlust i'n or hoff o'r patrwm a osodwyd wrth lifo o'r llinell gyntaf i'r ail ymhob pennill, ond hoffais yr odl gyrch o fewn y drydedd linell ymhob pennill, soniarus iawn.

Gobaith yn y Gwyll: emyn arall sy'n ymateb i'n dwthwn ninnau ac wedi ei fydryddu'n dda, ond o'i gymharu â'r emyn sydd ar y brig ac sy'n trafod yr un pwnc ond mewn ffordd fwy cynnil, gwelir fod cynnewys geiriau fel 'pandemig' yn yr emyn yn tynnu oddi ar natur farddonol y gwaith. Mae'r pwnc yn ddigon amlwg i allu hepgor geiriau fel hyn a defnyddio'r gofod yn eu clle i ddelweddu.

Gredifael: Fel a nodwyd yn y feirniadaeth o waith Adyn, mae modd i emyn fod ar sawl ffurf, ond i'm clust i mae'r penillion yn rhy hir i allu gweithio alaw gofiadwy arnyn nhw.

Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Jack: Ymgais deg ond o'i chymaru â'r emynau eraill mae hon yn rhy brin ei llinellau i allu dweud rhywbeth cymharol rymus, er cystal yw'r ymdrech.

Moli: Ymdrech deg ond mae sawl emyn cystadleuol yn y gystadleuaeth hon sy'n cario negeseuon amserol a grymus ac sy'n golygu nad yw hwn yn cyrraedd y brig y tro hwn

Morhaearn: Emyn cymharol syml ei fydryddiaeth a diffuant ei neges

Rhwydrus: Fel Morhaearn, ymdrech sy'n defnyddio'r pennill telyn i ganu'n ddiffuant.

Cystadleuaeth y Dysgwyr

Danny: Mwynheais natur chwareus a deifiol y gerdd hon. Cerdd goncrit (ac nid wyf yn ymddiheuro am y chwarae ar eiriau gen i!) a geir yma, cerdd ar ffurf pont yn weledol felly. Ond mae ei chynnwys yn herio'r darllennydd a'n dealltwriaeth o farddoniaeth a mwynheais ei derbyn yn y gystadleuaeth. Chwa o awyr iach, er yn ddadleuol, tebyg i orchest Aled Jones Williams yng Nghoron 2003.

Fandango: Ymgais glyfar! Diolch am gael chwerthin

Griffidd Antir: Bydd Gruffudd Antur yn hoff o'r limrig chwareus hwn

Gwawr Goch: Er bod y cynganeddu'n gywor yn yr englynion, yn anffodus ni ddeallais y gerdd hon. Cofier taw gair benywaidd yw 'Barn'

Helen: Mae modd treulio amser dros y gerdd hon yn gwneud sawl peth: mwynhau ei chynghanedd, ceisio dirnad ei hystyron, darllen ei gwahanol haenau. Mae'n sicr yn haeddu bod yn agos at y brig ac felly'n derbyn yr ail wobr. Nid yw o reidrwydd yn canu mewn ffordd ffarddonol glasurol ond dyma natur heriol y bardd. Efallai fod y cyfanwaith yn gwrthio pethau'n rhy bell ar brydiau, o ran gorfodi'r darllenydd i ganolbwyntio a mynd yn ôl ac ym mlaen i ddeall yn well ond mae'r uchelgas yn haeddu ei gwobr. Cofier nac oes byth 'ac' o flaen geiriau sy'n dechrau â 'h'. 'A himwor' felly.

Llifanarchiaeth: Bardd Chwareus arall (o bosib yr un bardd â Danny, Fandango a Helen???) ond un sy'n defnyddio hoff fesur Eurig S yn ddeheuig ac yn arbrofol. Am hynny, ei dyndra mydryddol a'i lwyddiant wrth gyfleu ei neges, rhodder y wobr gyntaf iddo neu iddi.

PsaRM: Englyn chwareus mewn Catalaneg a Chymraeg.

Python ym Mhonty: Hoffais y chwarae ar wahanol ffurfiau Pont wedi ei dreiglo.

Syr Tatws Pob: Diolch am glyfrwch a dychan hon. Cerdd ogleisiol i'w mwynhau.

Truthiwr: Tybed ai'r un bardd â'r Pedwar uchod a Danny, Fandango a Helen? Ta beth, diolch am y mawl, ond ni ddaw gwobr am hynny!

Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Y Limrig

Un peth reit bwysig mewn limrig yw bod y llinellau'n dilyn ei gilydd yn lân. Bod y rhythm yn llifo'n esmwyth. Mae'n anos peth na'r disgwyl i'w wneud yn iawn, weithiau. Y ffordd orau i roi prawf ar bethau yw drwy ddarllen y gwaith yn uchel neu ofyn i rywun arall eu darllen. Os byddwch chi neu'r person arall yn gorfod darllen llinell fwy nag unwaith, yna'r tebyg yw fod rhywbeth amdani'n gloff.

Er enghraifft, dyma ddwy linell gyntaf limrig Tara – nid am ei fod yn arbennig o gloff, ond mai dyma'r cyntaf allan o'r sach!

Roedd pennawd ar flaen Y Dinesydd
Fod y global warming ar gynnydd …

Dyw'r ail linell ddim cweit yn cyfateb i'r gyntaf, sef y llinell osod. Sylwch – mae'r tri churiad yn y llinell gyntaf, ac maen nhw'n syrthio ar yr ail sillaf, y bumed a'r wythfed:

Roedd pennawd ar flaen Y Dinesydd

Ond yn yr ail linell uchod, mae'n anodd deall ar y darlleniad cyntaf ym mhle mae'r curiadau'n syrthio. Mae mwy nag un ffordd i ddarllen y llinell, a dyw'r un ohonyn nhw'n cyfateb i'r gyntaf. Fe ddwedwn ni, er hwylustod, fod y curiadau'n syrthio ar y drydedd sillaf, y bumed a'r wythfed:

Fod y global warming ar gynnydd

Iawn, mae'r ddau guriad olaf yn y llinell hon ac yn y llinell gyntaf yn syrthio ar y bumed sillaf a'r wythfed, ond mae'r curiadau cyntaf mewn llefydd gwahanol. Byddai'n bosib cywiro'r ail linell fel hyn:

Roedd pennawd ar flaen Y Dinesydd:
MAE NEWID MEWN HINSAWDD AR GYNNYDD

Mae'r tri churiad yn y ddwy linell hyn yn syrthio ar yr un sillafau, ac mae'n bosib darllen y ddwy linell yn rhwydd heb orfod oedi i ddyfalu sut orau i'w darllen.

Mae rhyw broblemau bychain fel hyn yn bla ar lawer o'r limrigau a ddaeth i'r gystadleuaeth. Yn y dyfodol, triwch sicrhau fod lleoliad y curiadau yn eich llinellau chi'n cyfateb mor agos â phosib i leoliad y curiadau yn y llinell osod. Daw llwyddiant yn ei sgil!

Gair i gall hefyd yng nghlust ambell un fu'n sôn am 'ferched del' a sgandals yn ymwneud â 'merched amheus'. Sianelu'r tabloids wnaethon nhw, siawns, ond mae'r cyfan yn teimlo, ar y gorau, braidd yn ddiog, ac ar y gwaetha'n ddiangen o siofinistaidd. Chwiliwch am jôcs newydd!

Ta waeth, mensh arbennig i Llandawel am fynd â ni ar drywydd annisgwyl:

Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Roedd pennawd ar flaen Y Dinesydd
Fod Drakeford mewn cariad ’da’r Llywydd.
   Fe’u gwelwyd ynghyd
   Yn mynd allan am bryd
Ac yn sibrwd deddfwriaeth i’w gilydd.

Felly hefyd Glyndwr:

Roedd pennawd ar flaen Y Dinesydd
Fod bwthyn ar werth yn Uwchmynydd,
   Ond rhaid ’mi gydnabod,
   Mae’n pigo ’nghydwybod:
’Di nghyfri fi’n barod am drydydd?

Ond mae’r wobr gyntaf yn mynd i Bilbo, a wnaeth ddefnydd da o’r gair anfwriadol ddoniol ‘anaddasach’ a tharo’r ergyd yn lân:

Sibrydais i’n dawel i’m deintydd
Fy mod i’n ffansïo’r derbynnydd.
   Am gadw cyfrinach,
   Does neb anaddasach:
Roedd pennawd ar flaen Y Dinesydd.

Y Delyneg

Peth digon anodd i’w ddiffinio yw telyneg. Gall fod yn gerdd gwbl benrydd, yn gerdd benrydd gynganeddol, yn gerdd ar fydr ac odl, a llawer math arall. Cafwyd rhai o bob math yn y gystadleuaeth hon.

Un darn o gyngor i bawb. Gwell o lawer lunio brawddeg lawn yn hytrach na datganiadau moel. Er enghraifft, mae’r llinellau hyn gan Harriet yn llifo’n dda:

Pan ddaw mis Awst
a’i wrid a’i wên,
a sawr yr haf yn ein ffroenau,
awn am dro ar drên.

Brawddeg gall lle mae’r naill beth yn dilyn y llall yn synhwyrol. Nid felly cweit yn llinellau olaf cerdd Chwarae’n Troi’n Chwerw:

Hwyl y criw wrth reoli pla,
whare plant yw hela.

Beirniadaethau Eisteddfod Caerdydd 2022

Mae'r ail linell fan hyn yn glo da i'r gerdd, ond mae rhywbeth yn eisiau yn y gyntaf. Mae angen rhywbeth i ddaearu'r frawddeg, rhywbeth syml i fraenaru'r tir, fel petai, ar gyfer yr ergyd ar y diwedd:

Ar dir y goedwig annaearol hon,
whare plant yw hela.

Neu rywbeth tebyg – setyp ac ergyd.

Trawodd un yr hoelen ar ei phen â'i ddewis o ffugenw: Bardd o fri nid ydwyf. Soned gan March y Plwyf, sy'n gamp ynddo'i hun, ac mae llawer i'r edmygu yma, ond chydig o straen ar ambell ran (e.e. dwy linell olaf yr ail bennill).

Mae gan Jonem afael gadarn iawn ar fydr ac odl, ond treuliedig yw'r pwnc, yn anffodus, sef bachgen ifanc yn chwarae gêm dreisgar ar y sgrin ac yn dod i ddiwedd tebyg wrth grwydro'r strydoedd yn y byd go iawn. A oes cyswllt agos rhwng y ddau beth bob tro? Hawdd dod i'r canlyniad simplistig eu bod mewn cerdd sy'n cyplysu'r ddau heb wynebu amwysedd y sefyllfa.

Cafodd Chwarae'n Troi'n Chwerw ei ysbrydoli gan lyfr a ddarllenodd am brofiadau milwyr yn yr Almaen – digon teg, ond bydd rhannau o'r gerdd yn dywyll i'r neb nad yw wedi darllen y llyfr.

Cafwyd cerdd syml iawn gan Rhydygroes sy'n cymharu bywyd â gêm o gardiau. Mae'r dweud yn uniongyrchol ac yn taro'r nod. Dyma'r ail o ddau bennill:

Dibwrpas ydyw cwyno
Am gerdyn sâl, di-fudd,
Cymysgedd ddaw i'n dwylo
Wrth fyw o ddydd i ddydd,
Rhaid chwarae'r gêm, beth bynnag ddaw,
Â'r cardiau gawsom yn ein llaw.

Lluniodd Prosecco soned sy'n llifo'n braf ac yn chwareus iawn. Dyma ail hanner y gerdd, a noder y ddwy linell olaf gampus:

Rwy'n llenor (ydw wir) a cherddor coeth.
Cyfarfodydd llenorion anhysbys,
Eu mynychu wnaf – rwy'n ymladdwr poeth.
I ti'r eiddunaf fy ffortiwn a'm crys.

Ceidwad llenorion. Onid erchi di,
Yr Awen, ddropyn bach i'w roi i mi?

Mae'n llawn haeddu'r wobr gyntaf.